# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | ANN COOK | Adran Etholiadol: | Y COCYD |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliwyd 24 o gymorthfeydd cynghorydd yn Ward y Cocyd yn ystod y flwyddyn ac euthum am dro sawl gwaith i weld y materion yn y ward a chwrdd ag etholwyr.

Gweithiais gydag adrannau perthnasol y cyngor i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon/phostio anghyfreithlon, glanhau strydoedd a cheffylau crwydr yn yr ardal.

Roeddwn yn rhan o'r Cynllun Tyfu'n Lleol.

Gweithiais gyda'r PCSOs lleol ar faterion amrywiol yn y ward.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 10 | / | 12 | 83 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 14 | / | 16 | 88 | % |
| CYFFREDINOL | 57 | / | 65 | 88 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Is-gadeirydd y Panel Craffu ar Dwristiaeth a'r Panel Craffu ar Drafnidiaeth.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Roeddwn yn aelod o Grŵp Llywio Clwstwr y Gogledd-orllewin fel Aelod Ward y Cocyd yn cynrychioli cymuned Gendros. Roedd hyn yn cynnwys monitro gwaith y Tîm Cymunedau'n Gyntaf ar draws Clwstwr Gogledd-orllewin Abertawe.

Eleni, gweithiais gyda Cymunedau'n Gyntaf yng Nghlwstwr y Gogledd-orllewin i sefydlu a chynnal prosiectau yng Nghanolfan Gymunedol Gendros. Mae prosiectau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys darpariaeth ieuenctid a gemau stryd Cymunedau'n Gyntaf, darpariaeth TGCh a dosbarthiadau a digwyddiadau eraill.

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio gyda Thîm Clwstwr y Gogledd-orllewin i'w helpu i ddatblygu

rhagor o weithgareddau prosiect sy'n canolbwyntio ar gymuned Gendros.

Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Gendros ac roeddwn yn llwyddiannus wrth gael arian ar gyfer gweithgareddau amrywiol i helpu i gadw'r ganolfan ar agor.

Ymgyrchais i gael gwasanaeth bws ar ddydd Sul yn Waunarlwydd ac i gael dau gysgodfan bws newydd.

Roeddwn yn llwyddiannus wrth gael 6 gwely blodau/llysiau wedi'u codi ac arian ar gyfer perllan fach i breswylwyr Tŷ Dewi Sant, Fforestfach.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

27/03/2014 - Deall Materion Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
22/01/2014 - Rheolau Trafod
27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
14/10/2013 - Cyn-benderfynu
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cynhaliwyd cymorthfeydd cynghorwyr yn rheolaidd a chawsant eu hysbysebu mewn siopau etc. ac yn y papur newydd.
Euthum i gyfarfodydd PACT yn Llyfrgell Fforestfach, Canolfan Gymunedol y Cocyd a Chanolfan Gymunedol Waunarlwydd.
Euthum i gyfarfodydd cymunedol Cymunedau'n Gyntaf a Chlwstwr y Gogledd
Euthum i gyrsiau hyfforddi cynghorwyr
Euthum i gyrsiau hyfforddi llywodraethwyr ysgol
Euthum i gyfarfodydd a gynhaliwyd yn Swyddfa Dai Blaenymaes
Euthum i gyfarfodydd a gynhaliwyd yng Nghlwb yr Henoed, Fforestfach
Ymwelais â chanolfannau dydd yn y ward
Gwirfoddolais un diwrnod yr wythnos i Age Cymru

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31.05.14 |